




# **Cymrodoriaeth Cymru'r Dyfodol**

**2023–25**



## **Future Wales Fellowship**

- 4 **Cyflwyniad**  
**Introduction**
- 6 **Trosolwg o'r Rhaglen**  
**Programme Overview**
- 10 **Manon Awst**
- 14 **Cheryl Beer**
- 18 **Cyngor Celfyddydau Cymru**  
**Arts Council of Wales**
- 20 **Jenny Peevers**
- 22 **Eric Lesdema**
- 26 **Zillah Bowes**
- 32 **Cyfoeth Naturiol Cymru**  
**Natural Resources Wales**
- 34 **Peak Cymru**
- 36 **Alison Neighbour**
- 42 **Simmy Singh**
- 48 **Ymddiriedolaeth Cwm Elan**  
**Elan Valley Trust**
- 50 **Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru**  
**National Trust Cymru**
- 52 **Julia Thomas**
- 56 **Iestyn Tyne**
- 62 **Diolch**  
**Thanks**

# Cyflwyniad

Ym mis Awst 2023, daeth galwad am wyth artist i fod yn rhan o'r ail genhedlaeth o Gymrodorion Cymru'r Difodol, ffrwyth partneriaeth rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru, Ymddiriedolaeth Cwm Elan, a Peak Cymru. Gan ddechrau yn Rhagfyr 2023, mae'r wyth Cymrodor wedi treulio un mis ar bymtheg ers hynny ar broses o ymholi creadigol — cyfuniad o ymchwil a chreu — a hynny er mwyn archwilio'r thema o 'gysylltiad â byd natur'.

Yn y llyfryn hwn, mae cyfle i glywed gan yr wyth am ffrwyth eu gwaith dros y misoedd a fu, yn ogystal â chlywed gan y partneriaid a'r hwyluswyr sydd wedi bod ynghlwm â'r broses am eu hargraffiadau hwythau.

Bwriadwyd i'r Gymrodoriaeth fod yn rhaglen oedd yn blaenoriaethu'r broses gymaint ag unrhyw 'gynnyrch terfynol' – hynny ydi, yr ymholi *yw'r cynnyrch*. Yn y llyfryn hwn felly mi gawn ni gyfle godi carreg, a gweld y mwydod a'r malurysorion yn cnoi cil, a phrosesu, a gweithio. Dyna sydd yma: gwaith yn ei ganol: y cawl yn mudferwi, y coffi'n percoladu.

Beth yw ein perthynas â byd natur? Perthynas ein cymunedau â'n bröydd? Mae'r wyth yn y cyhoeddiad hwn wedi mynd â'r ymholiad hwn i sawl cyfeiriad – wedi mynd â fo at y coed, wedi mynd â fo i ddyfnaderoedd y gors, wedi mynd â fo yn ôl i'n gorffennol ac wedi mentro sbechan dros y pared i'r difodol hefyd. Maen nhw wedi gwrando, a gwyllo, wedi dangos fod ymholiad ac ymchwil yn broses sy'n defnyddio ein corff i gyd ac nid dim ond yr ymennydd - y 'knowing-in-being' y mae'r gwerthusydd Jenny Peevers yn ei grybwyllyn ei hadlewyrchiad hi.

Mae'r gair Cymraeg 'diwylliant' wedi ei wreiddio yn y syniad o 'ddad-wylltio', mai'n diwylliant dynol yw'r hyn nad sy'n wylt. Ond mae llawer o'r gwaith a geir yma yn torri ar y ddeuoliaeth honno. Mae Iestyn Tyne a Simmy Singh ill dau yn defnyddio cerddoriaeth mewn gwahanol ffyrdd i herio'r meddwl deuolieuthol hwn. Mae Eric Lesdema yn cwestiynu natur-fel-cyfoeth, a natur-fel-adnodd, a sut mae diwylliant yn amodi y berthynas efo natur, ac iaith fel ffordd i'w ddeall, tra fod Julia Thomas yn defnyddio iaith fel cyfrwng i archwilio cymhlethdodau galar ôl-ddiwydiannol. Mae Cheryl Beer yn mynd â ni yn ôl i'n cyrff, i feddwl am ein systemau parasympathetic yng nghyswilt y byd naturiol, ac mae Manon Awst yn mynd â ni i'r gors, i feddwl am iaith a meddalwch, ffiniau ac ansefydlogrwydd. Mae Alison Neighbour yn gofyn i ni edrych o'r ymylon, a Zillah Bowes yn ein gwahodd i roi ystyriaeth i'r ffordd ydym ni'n mynd ati i 'fod' yn y byd.

## Grug Muse

# Introduction

In August 2023, a call was announced for eight artists to be a part of the second generation of the Future Wales Fellowship, the result of a partnership between Natural Resources Wales, the Arts Council of Wales, National Trust Cymru, the Elan Valley Trust, and Peak Cymru. Starting in December 2023, the eight Fellows have spent sixteen months on a process of creative enquiry – a combination of research and creation – in order to explore the theme of 'connection to nature'.

In this booklet, we hear from the eight participants about their work over the past months, as well as from the partners and facilitators who have been a part of the process about their impressions.

The Fellowship was intended to be a programme that prioritised the process as much as any 'end product' – that is, the enquiry is the product. In this booklet we will therefore have the opportunity to turn the stone, and see the worms and detritivores ruminating, processing, working. That's what we have here: a work in progress: a simmering soup, a percolating coffee.

What is our relationship with nature? Our relationship with our communities and lands? The eight participants in this publication have taken this enquiry in many directions – to the trees, to the depths of the marsh, back to our past, and have even dared to peek over the wall into the future as well. They have listened, watched, and have shown that enquiry and research is a process that uses our whole body, not just the brain – the 'knowing-in-being' that the evaluator Jenny Peevers mentions in her reflection.

The Welsh word for culture, 'diwylliant', is rooted in the idea of 'de-wilding' (*dad-wylltio*); in the idea that our human culture is that which is not wild. But much of the work found here breaks that dichotomy. Iestyn Tyne and Simmy Singh both use music in different ways to challenge this dichotomous thinking. Eric Lesdema questions nature-as-cyfoeth and nature-as-resource, how culture conditions relationships with nature, while Julia Thomas uses language as a means of exploring the contradictions of post-industrial grief. Cheryl Beer takes us back to our bodies, to think about our parasympathetic systems in relation to the natural world, and Manon Awst takes us to the marshlands, to think about language and softness, boundaries and instability. Alison Neighbour asks us to look from the edges, and Zillah Bowes invites us to consider the way we go about 'being' in the world.

## Grug Muse

# Trosolwg o'r Rhaglen

Datblygwyd y Gymrodoriaeth Cymru'r Dyfodol fel ymateb i gydweledigaeth y Bartneriaeth Natur Greadigol a lofnodwyd yn 2020 rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a Chyfoeth Naturol Cymru. Wedi ei sbarduno gan yr angen i weithredu dros yr argyfyngau hinsawdd a natur, roedd y gydweledigaeth hon am dyfu'r perthynas rhwng natur a'r celfyddydau, gyda'r bwriad o feithrin talent greadigol a chefnogi mwy o bobl o gefndiroedd gwahanol i gael mynediad at natur a'r celfyddydau. Roedd hi hefyd am ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach ac ehangach o werth gweithgaredd creadigol i fyd natur ac o werth byd natur at y celfyddydau – ac felly croesawyd sefydliadau eraill sydd â phrofiad ac arbenigedd yn y maes hwn, Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru, Ymddiriedolaeth Cwm Elan, a Peak Cymru, i ymuno fel partneriaid ar ail genhedlaeth y rhaglen.

Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon, siapiwyd y Gymrodoriaeth yn gyfle i wyth artist neu unigolion creadigol dreulio 16 mis yn cynnal ymchwil greadigol ar thema "cysylltiad â byd natur". Mae'r Gymrodoriaeth yn creu lle ar gyfer myfyrio a datblygiad personol, a hefyd ar gyfer gweithredu, gan alluogi ail-ddychmygu a tharfu ar ffyrdd cyfredol o feddwl a chynnig posibiliadau newydd. Gan oedd y partneriaid yn ymuno â'r preswylfeydd ac yn siarad gyda'r artistiaid ar hyd y daith, roedd modd i gyfnewid dysgu ac i'r sefydliadau ystyried y posibiliadau newydd hyn hefyd. Yn hynny o beth, nodwedd bwysig o'r Gymrodoriaeth oedd rhoi amser a gofod i'r Cymrodorion i ymchwilio a datblygu syniadau newydd, heb y pwysau o ddisgwyliad allawn neu gynnwyrch gorffenedig ar ddiweddu y rhaglen, gan ymddiried y byddai'r buddsoddiad hwn yn talu ar ei ganfed yn y pen draw.

**Peak Cymru** oedd yn cyflwyno'r rhaglen ddatblygu ar gyfer Cymrodoriaeth Cymru'r Dyfodol, gan gefnogi'r Cymrodorion i ddatblygu ymchwil sy'n archwilio'r berthynas gymbleth rhwng pobl, natur, lle a hinsawdd. Roedd y rhaglen ddatblygu'n cwmpasu ffrydiau unigol a chyfunol, gyda gweithgarwch grŵp yn canolbwytio ar dair preswylfa a gynhalwyd ar safleoedd partneriaid: Ystebwll (Sir Benfro) a Chwm Elan (Powys). Ochr yn ochr â'r digwyddiadau yma, roedd sgyrsiau rheolaidd gyda thîm Peak a chyfranwyr y rhaglen yn cefnogi ymchwil esblygol y Cymrodorion, ac yn cynnwys safbwytiau o feysydd cyfiawnder hinsawdd, barddoniaeth, theatr, rheoli tir, ecoleg a threftadaeth. Yn ogystal, cefnogodd Rheolwr Rhaglen Natur Greadigol yng Nghyngor Celfyddydau Cymru bob Cymrawd ar eu taith greadigol drwy sgyrsiau unigol wedi'u teilwra, gan gynnig arweiniad i roi eglurhad ar eu pwnc ymchwil, datblygu ymwybyddiaeth a myfyrio ar yr hyn a ddysgwyd ar gamau amrywiol, ac i ystyried gwahanol safbwytiau, gweithiau ac unigolion a allai lywio eu hymchwil.

Roedd y pwyntiau cymorth amrywiol yma ar eu teithiau creadigol yn galluogi'r Cymrodorion i gael mynediad at wahanol fathau o ymarferwyr a safbwytiau drwy gydol y Gymrodoriaeth, gan gynnig amser a lle hefyd rhwng preswylfeydd a sgyrsiau er mwyn i syniadau dreiddio. Roedd y preswylfeydd hefyd yn rhoi cyfle i'r Cymrodorion ddod i nabod ei gilydd a'u harferion a rhannu eu hymchwil mewn man agored a chefnogol.

# Programme Overview

The Future Wales Fellowship was developed in response to the shared vision of the Creative Nature Partnership which was signed in 2020 between the Arts Council of Wales and Natural Resources Wales. Inspired by the need to take action in response to the climate and nature emergencies, this joint vision was about growing the relationship between nature and the arts, with the intention of nurturing creative talent and supporting more people from different backgrounds to access to nature and the arts. It was also about developing a deeper understanding of the value of the creative activity to nature and vice versa – and so other organisations with experience and expertise in this field, National Trust Cymru, the Elan Valley Trust, and Peak Cymru, were welcomed to join the second iteration of the programme.

In order to realise this vision, the Fellowship was shaped as an opportunity for eight artists or creative individuals to spend 16 months carrying out creative research on the theme of "connection with nature". The Fellowship creates a space for reflection and personal development, and also for action, enabling the re-imagining and disruption of current ways of thinking and offering new possibilities. As the partners joined the residencies and spoke with the artists on their journeys, it was possible to exchange learning and for the organisations to consider these new possibilities as well. Therefore, an important characteristic of the Fellowship was that it gave the Fellows time and space to research and develop new ideas, without the pressure of an expectation of a finished output or product at the end of the programme, trusting that this investment would generate greater benefits in the long term.

**Peak Cymru** delivered the development programme for the Future Wales Fellowship, supporting the Fellows to develop research exploring the complex relationship between humans, nature, place and climate. The development programme encompassed both individual and collective strands, with group activity focused around three residencies hosted at partners' sites: Stackpole (Pembrokeshire) and Cwm Elan (Powys). Alongside these gatherings, regular conversations with the Peak team and programme contributors supported the Fellows' evolving research and brought perspectives from the fields of climate justice, poetry, theatre, land-management, ecology and heritage. In addition to this, the Creative Nature Programme Manager at the Arts Council of Wales supported each Fellow on their creative journey through tailored individual conversations offering guidance to clarify their subject of research, develop awareness and reflect on learnings at various stages, and to consider different perspectives, works and individuals which might inform their research.

These varied touch points of support throughout their creative journeys enabled the Fellows to access different kinds of practitioners and perspectives throughout the Fellowship, whilst also providing time and space between residencies and conversations for ideas to percolate. The residencies also provided an opportunity for the Fellows to get to know each other and their practices and share their research in an open and supported space.

### **Preswylfa 1**

**Stad Ystagbwll, Sir Benfro**  
**8-10 Chwefror 2024**

Roedd y breswylfa'n canolbwyntio ar gyflwyno arferion y Cymrodorion i'w gilydd a dod i nabod y safle. Buon nhw'n archwilio dyfodol llynnoedd Ystagbwll gyda Grace Davies o Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru. Roedd hefyd yn cynnwys cyflwyniad i'r safle gyda Haydn Garlick o Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru a Paul Culyer o Cyfoeth Naturiol Cymru, cyn cloi gyda sesiwn fyfyrion dan arweiniad Rebecca Spooner o Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru.

### **Preswylfa 2**

**Cwm Elan, Powys**  
**13-15 Mehefin 2024**

Yn yr ail breswylfa, cyflwynwyd y Cymrodorion i Gwm Elan gan Esther Wakeling o Ymddiriedolaeth Cwm Elan. Bu'r Cymrodorion yn archwilio cynefinoedd mawnog ym Mhenglaneinon gydag Iona Blockley, a dolydd gwair a Fferm Penygarreg gyda Charlotte Harley, ill dwy o Ymddiriedolaeth Cwm Elan. Hwylusodd y Cymrawd Iestyn Tyne gylchoedd croesawu a chloï, arweiniodd y Cymrawd Zillah Bowes daith gerdded gyda'r nos, ac arweiniodd yr awdur ac un o Gymrodorion Cymru'r Dyfodol 2022, Dylan Huw, sesiwn iaith ddwyieithog. Arweiniodd Rachel Solnick, ymchwilydd, ymgyrchyd ac ymgeisydd PhD ym Mhrifysgol Aberystwyth, weithdy Straeon Tir, gyda chywlyniad i'w hymchwil ar ymddangosiad arferion radical ar ffermydd a gerddi Detroit.

### **Preswylfa 3**

**Stad Ystagbwll, Sir Benfro**  
**4-6 Hydref 2024**

Yn y drydedd breswylfa, arweiniwyd y cylch agoriadol gan y coreograffydd, yr hwylusydd a'r cyfarwyddwr symud Jên Angharad. Roedd y breswylfa'n canolbwyntio ar rannu gwaith ac ymchwil y Cymrodorion drwy fynd am dro, sgyrsiau, perfformiadau a gweithdai, ac arweiniwyd y cylch cloi gan y Cymrawd Simmy Singh.

### **Residential 1**

**Stackpole Estate, Pembrokeshire**  
**8-10th February 2024**

The residential focused on introducing the Fellows' practices to each other and getting to know the site. They explored the future of Stackpole's lakes with Grace Davies of the National Trust Cymru. It also included an introduction to the site with Haydn Garlick of the National Trust Cymru and Paul Culyer of NRW, and closed with a reflection session hosted by Rebecca Spooner of the National Trust Cymru.

### **Residential 2**

**Elan Valley, Powys**  
**13-15th June 2024**

In the second residential, the Fellows were introduced to Cwm Elan by Esther Wakeling from the Elan Valley Trust. Fellows explored the peat habitats at Penglaineinon with Iona Blockley, and Penygarreg Farm and hay meadows with Charlotte Harley, both of the Elan Valley Trust. Fellow Iestyn Tyne facilitated welcoming and closing circles, and Fellow Zillah Bowes led a night walk, and one of the 2022 Future Wales Fellows, Dylan Huw, led a bilingual language session. Rachel Solnick, researcher, activist and PhD candidate at Aberystwyth University led a Land Stories workshop with an introduction to her research on the emergence of radical praxis in the farms and gardens of Detroit.

### **Residential 3**

**Stackpole Estate, Pembrokeshire**  
**4-6th October 2024**

For the third residential, the opening circle was led by choreographer, facilitator and movement director Jên Angharad. The residential focused on sharing the work and research of Fellows through walks, conversations, performances and workshops, with the closing circle led by Fellow Simmy Singh.

# Manon Awst

## A wyt ti yn fawn-gytûn?

Ar ddiwedd y Gymrodoriaeth, mae'r cwestiwn yma ar flaen fy meddwl, yn siapio'r hyn dw i'n sgwennu a chreu yn y stiwdio ac yn fframio fy amser allan ar safle.

I roi cyd-destun, mae'r Gymrodoriaeth wedi fy annog i ymestyn fy ffyrdd arferol o weithio. Canlyniad hynny yw 'Gweld trwy'r gors', sy'n symud rhwng ymchwil safle-benodol, darlith berfformiadol, ac archwiliad cerfluniol. Dw i wedi cael y cyfle i rannu'r gwaith ar y gweill mewn digwyddiadau amrywiol gan gynnwys Cynhadledd Mawndiroedd yr IUCN yn y Cairngorms, Earth Rising yn IMMA Dulyn a Before the Object: Material Histories, Infrastructures, and Ecologies ym Mhrifysgol Gelf HBK Braunschweig.

Fy sylfeini gludiog ar hyd y flwyddyn fu corsydd crynedig Cymru, yn benodol Cors Gyfelog, Eifionydd (ychydig filltiroedd o fy stiwdio) a Chors Crymlyn, Abertawe – safleoedd sydd dan ofal Cyfoeth Naturiol Cymru ac yn rhan o brosiect adfer LIFEquake. Ar hyn o bryd dw i'n gweithio ar ffurf sy'n dod ag elfennau fy mhrosiect at ei gilydd, yn cynnwys ffilm, seinwedd a gosodiad fydd yn cael ei rannu yn Stiwdio Cadnant, Caernarfon a Stiwdio Griffith, Coleg Celf Abertawe yn bellach mlaen eleni.

## Ond a wyt ti yn fawn-gytûn?

Fel 'Gweld trwy'r gors', mae'r cwestiwn ar ffurf cynghanedd, sef ffurf dw i wedi bod yn ei defnyddio ar gyfer strwythuro fy syniadau corsiog gan ei bod yn taro nodyn ar lefel glywedol a symbolaidd. Dw i'n gweld y berthynas rhwng strwythur pendant ac elfennau meddalach, chwareus yn debyg i'r profiad o fod allan ar y gors, lle mae cydbwysedd cynnil rhwng y mwsog trwchus sy'n dal eich pwysau a'r pyllau tyfn o fawn sy'n bygwth eich llyncu chi.

Ysgrifennodd Barbara Hurd "what knows no boundary between land and water will know no boundary at the edge of your body." Ac ar Gors Crymlyn a Gyfelog, mae ffiniau'n pylu'n flêr wrth i chi ymdrochi, rhwng beth sy'n solet/corsiog, sad/sigledig, byw/pydru. Mae llifeddyma rhwng patrymau pobl a'r patrymau tu hwnt i ni sy'n llunio llwybrau newydd o syniadau.



## Beth mae'n ei olygu i fod yn fawn-gytûn?

Mae mawn yn araf, gludiog, budr a gwlyb. Mae cors iach yn gynefin cyfoethog i fywyd gwylt prin fel tegeirian y gors, britheg y gors, a chorryn raffftio'r gors galch. Dim ond i mm o fawn sy'n ffurfio mewn blwyddyn ar safleoedd sy'n gallu bod hyd at 12m o ddyfnder: dyma fapiau dŵfn sy'n ein helpu i ddarllen y gorffennol a dychmygu'r dyfodol.


Awgryma Anna Tsing fod ansicrwydd (precarity) yn un o brif nodweddion ein hoes. Os yw cydbwysedd a sefydlogrwydd yn amhosib mewn argyfwng ecolegol, mae'n rhaid i ni ddysgu siglo a ffendio ffurfiau o gynhaliaeth amgen. Er mwyn bod yn fawn-gytûn, mae gofyn i ni fagu patrymau a gweadau newydd – ffendio dewrder mewn ansicrwydd, cydbwysedd mewn ansadrwydd, cysur mewn llifeddy. Mae hefyd rhaid i ni arafu, a chofleidio sefyllfaedd lletchwith yn hytrach na'u hofni.

Yng Nghymru, rydyn ni'n wynebu gwlybanaeth ac ansefydlogrwydd cynyddol, a dw i'n cynnig bod dod yn fawn-gytûn yn ffordd o fagu arferion newydd a fydd yn ein helpu i sefydlu cynefinoedd cynaliadwy yn yr hir-dymor.

<sup>1</sup> Barbara Hurd, *Stirring the mud: On Swamps, Bogs and Human Imagination*, t.143

<sup>2</sup> Anna Tsing, *The Mushroom at the End of the World*, t.20

# Manon Awst



## Am I peat-compatible?

At the end of the Fellowship, this question is stuck on my mind, shaping what I write and make in the studio and framing my time out on site.

For context, the Fellowship has encouraged me to push and pull at my usual ways of working and ‘Peaty Patterns’ is the outcome: part site-research, part performance lecture, part sculptural investigation, I’ve shared the work-in-progress at events including the IUCN Peatland Conference in the Cairngorms, Earth Rising at IMMA Dublin and Before the Object: Material Histories, Infrastructures, and Ecologies at HBK Braunschweig University of Art.

My creative research has been rooted in Welsh quaking bogs, specifically Cors Gyfelog, Eifionydd (just a few miles from my studio) and Crymlyn Bog, Swansea, both managed by Natural Resources Wales and undergoing restoration as part of LIFEquake. I’m currently sculpting a piece which brings the fragments of my project together, involving film, a soundscape and an installation that will be presented informally in my studio and at Stiwdio Griffith, Swansea College of Art later this year.

## But am I peat – compatible?

Like ‘Peaty Patterns’, the question is formulated through *cynghanedd*, the established Welsh form of strict metre poetry using stress and alliteration. I’ve used cynghanedd instinctively as a means of structuring my peaty reflections since it fits on both sonic and symbolic levels. I compare the subtlety between rigid structure and playfulness to experience out on the bogs, where there’s a fine balance between dense moss that levitates, supporting your weight, and deep pools of peat that you sink into.

Barbara Hurd wrote “what knows no boundary between land and water will know no boundary at the edge of your body.”<sup>1</sup> And on Cors Crymlyn and Gyfelog, boundaries certainly become a blurred mess once you get stuck in, between what is solid/swampy, stable/unstable, alive/decaying. There is porosity here between human and more-than human patterns that start to establish new boardwalks of thought.

## What is it to be *peat-compatible*?

Peat is slow, sticky, dirty and wet. A healthy peatland is a rich ecological habitat for rare wildlife including bog orchids, marsh fritillary butterflies, and the fen raft spider. Only 1mm of peat forms in a year at sites that can be up to 12 metres deep: these are deep maps that help us to read the past and imagine the future.

Anna Tsing suggests that precarity is a condition of our time.<sup>2</sup> If balance and stability are impossible in a time of ecological crisis, we must learn to sway and find alternative forms of support. Becoming *peat-compatible* involves embracing alternative patterns and textures – finding courage in precarity, balance in instability, comfort in fluidity. It also requires slowing down, resisting urgency, and embracing sticky situations rather than shying away from them.

In Wales, we are facing increasing wetness and rising instability on a multitude of levels, and I suggest becoming *peat-compatible* as a way of nurturing new habits that might help us form sustainable habitats in the long run.



<sup>1</sup> Barbara Hurd, *Stirring the mud: On Swamps, Bogs and Human Imagination*, p.143

<sup>2</sup> Anna L Tsing, *The Mushroom at the End of the World*, p.20

# Cheryl Beer

Pan fyddwn ni'n plannu glasbren mewn man cyfyng, bydd yn dal i dyfu'n goeden. Ond, ni fydd yn teimlo cryfder a gwytnwch y rhwydwaith myseliwm, ac ni fydd chwaith yn tyfu i'w llawn botensial. Mae bod yn artist Cymrodoriaeth fel cael eich plannu'n ddwfn ym mhridd cyfoethog y goedwig. O ran fy arfer a fy mherthynas â natur, cafodd pob synaps creadigol ei ailgysylltu'n ddwfn. Roedd fy nhaith ar y Gymrodoriaeth yn bererindod tu hwnt i ddim byd gallwn i fod wedi'i ddychmygu.

Nod fy ymholiad oedd archwilio ein cysylltiadau emosiynol â natur. Dechreuais i gydag adolygiad llenyddiaeth o fy arfer fel artist sain amgylcheddol, gan gynnig mewnwelediad byd-eang i lywio cyfeiriad fy ymchwil. Ar yr un pryd, roedd yn teimlo'n bwysig deall emosiwn mewn perthynas â ffisioleg. Gwelais fod ymatebion emosiynol yn cael eu rheoli gan agweddau sympathetig a pharasymphathetic y brif system nerfol. Mae'r sympathetig yn rheoli ein hymateb ymladd, ffoi neu rewi; mae'r parasympathetic yn rheoli ein heddwch, ein tawelwch a'n gorffwys. Rhoddais y canfyddiadau yma mewn cyddestun bob dydd, lle mae gwleidyddiaeth ofn wedi bod yn dwysáu; Brexit, Covid-19, a nawr, rhyfel. A allai'r gorlwyth yma o ofn fod yn ffactor sy'n cyfrannu at y ffaith fod cyn lleied o bobl yn ymateb i feithrin yr hinsawdd yn well? At hynny, pe bawn i'n cymhwysyo fy arfer creadigol yn unol â hynny, a fydden i'n datgelu dull amgen, un sy'n seiliedig ar ystyriaethau parasympathetic, i ysbrydoli newid drwy gysylltiad emosiynol â natur, gan ysgogi cysylltedd â bregusrwydd hinsawdd drwy drugaredd?

Yn gyntaf, i sicrhau bod llais natur yn ganolog, lluniais dechneg o'r enw 'Braslunio Sonig', gan nodiannu patrymau gweledol ym myd natur i gyfansoddi cerddoriaeth sy'n cael ei harwain ganddo. Ar ôl mireinio'r dechneg yma, dechreuais breswylfa yng Ngardd Fotaneg Cenedlaethol Cymru, yn gweithio'n agos gyda'r botanegydd a'r mycolegydd, Bruce Langridge. Gyda'i arweiniad, cefais sgyrsiau ag ymwelwyr, gwirfoddolwyr, a staff, ac ar sail y sgyrsiau, lluniais lwybr ymchwil hybrid, sonig a synhwyraidd yn seiliedig ar natur, yn haenau o ystyriaethau am y system nerfol barasympathetic. Er enghraifft, mae'n hysbys bod cerddoriaeth a sŵn byd natur yn ysgogi'r nerf fagws; sef uwchffordd sy'n rhedeg tu ôl i gefn y glust allanol ac i lawr drwy'r system barasympathetic. Ymhlið yr enghreifftau eraill mae cyflymder a thôn stori a gaiff ei hadrodd mewn ffilm, y straeon natur a ddewisir, gan greu gofod i'r gynulleidfa gysylltu â'r agweddau hynny ar fyd natur y bydden nhw fel arfer yn eu diystyru, gan newid agweddau ac ysbrydoli rhyfeddod. Mae fy 'Llwybr Ymchwil Artist Natur Sonig' ar gael drwy **god QR** ar y safle yn yr Ardd. Fe es i â'r ffilmiau llwybr i'r gymuned i gynnal sgyrsiau hefyd, i sicrhau mynediad teg.

Roedd yr ymateb yn llethol, o ran ei faint a dyfnder y teimlad. Cymerodd ychydig o amser i fi ddadansoddi, anrhyydeddu ac ymgorffori mawredd y canlyniadau, a sut gallen nhw lywio fy namcaniaethau a fy arfer wrth symud ymlaen.

Nawr bod y Gymrodoriaeth wedi fy ailblannu mewn pridd cyfoethog, arhosaf yma, gan ymddiried y bydd beth bynnag a ddaw nesaf wedi'i drwytho, ar bob lefel o fy mod, yn yr addysg ddofn mae wedi'i rhoi i mi.

# Cheryl Beer

When we plant a sapling in a confined space, it will still grow into a tree. However, it will not feel the strength and resilience of the mycelium network, neither will it grow to its full potential. To be a Fellowship artist, is to be planted deep into the rich forest soil. Both in terms of my practice and my relationship to nature, every creative synapse became viscerally reconnected. My Fellowship journey was a pilgrimage beyond anything I could have imagined.

The aim of my enquiry was an exploration of our emotional connections with nature. I began with a literature review of my practice as an environmental sound artist, giving a global insight to inform the direction of my research. Concurrently, it felt important to understand emotion in relation to physiology. I found that emotional responses are managed by the sympathetic and parasympathetic aspects of the central nervous system. The sympathetic manages our fight, flight, freeze response; the parasympathetic manages our peace, calm and rest. I placed these findings into everyday context, where fear politics have been intensifying; Brexit, Covid 19 and now, war. Could this fear overload be a contributory factor as to why so few people respond in relation to better nurturing the climate? Furthermore, if I applied my creative practice accordingly, might I unearth an alternative approach, one based on parasympathetic considerations, to inspire change through an emotional connection with nature, compelling connectivity to climate vulnerability through compassion?

First, to ensure that nature's voice was central, I devised a technique called 'Sonic Sketching', notating visual patterns within nature to compose music led by the natural world. Having honed this technique, I began a residency at the National Botanic Garden of Wales, working closely with botanist & mycologist, Bruce Langridge. With his guidance, I held conversations with visitors, volunteers, staff and from these, devised a hybrid, nature-based, sonic and sensory research trail, layered with considerations in relation to the parasympathetic nervous system. For instance, music and nature sound are known to stimulate the vagus nerve; a superhighway that runs behind the back of the external ear and down through the parasympathetic system. Other examples are the pace and tone of film narration, the nature stories selected, thus creating space for the audience to connect with those aspects of the natural world they might ordinarily overlook, shifting attitude and inspiring wonder. My 'Sonic Nature Artist Research Trail' is accessible by **QR code** onsite at the Garden. I also took the trail films into the community for conversations, to ensure equitable access.

The response was overwhelming, both in terms of volume and depth of feeling. It took me some time to analyse, honour and embody the immensity of the results, and how they might inform my theories and practice going forwards.

Now that the Fellowship has replanted me in rich soil, I will be staying here, trusting that whatever comes next is infused, at every level of my being, with the deeply rooted learnings it has gifted me.



Mae'r Gymrodoriaeth yn arbennig gan ei bod yn rhoi amser a lle hael i artistiaid ddatblygu eu harferion – yn unigol, drwy gyfnewid â chymunedau, a gyda'i gilydd – gan gydnabod yr effaith hirdymor fwy mae hyn yn ei chael ar artistiaid a chynulleidfaedd.

Wrth wraidd y rhaglen mae'r gydnabyddiaeth fod gym mawr mewn dod â phobl â gwahanol safbwytiau, gwybodaeth a phrofiadau bywyd at ei gilydd, boed hynny ddim ond i siarad o gwmpas y tân, mynd am dro, neu i fod yn rhan o brofiad sy'n cael ei gyd-rannu. Mae'r cyfle i ddod i gysylltiad â'r gwahaniaethau yma wedi bod yn werth chweil er mwyn tyfu, dysgu, a newid hyd yn oed, ein safbwytiau ar bethau rodden ni'n meddwl ein bod yn eu nabod yn dda. Ychwanegwch greadigrwydd i hyn, ac mae rhywbeth tra rhyfeddol yn digwydd.

Mae'r Gymrodoriaeth hefyd wedi bod yn archwiliad dwfn o bŵer celfyddydau i roi llwyfan i'n ryngweithiadau, sy'n aml yn anymwybodol, a'n cysylltiad emosiynol â'r byd natur o'n cwmpas. Mae'r Cymrodorion wedi mynd â'i gilydd, y partneriaid, a'r cymunedau amrywiol maen nhw wedi gweithio gyda nhw, ar deithiau emosiynol hynod ddwys. Mae rhai teithiau wedi bod yn glös ac yn deimladwy, ac wedi datgelu'r cyfoeth o wybodaeth sy'n bodoli yn ein cyrff. Mae eraill wedi galluogi pobl i newid eu cysylltiad â natur ac wedi ffurfio sail ar gyfer meddwl newydd a datrysiau posib.

Mae'r hyn a allai ymddangos fel gweithredoedd bach a meddal yn wyneb dinistr natur a bioamrywiaeth yn cael ei danbrisio'n sylweddol. Mae'r profiadau a'r dysgu dwys a gaiff ei greu drwy ymchwil greadigol y Cymrodorion yn dystiolaeth bwerus fod y celfyddydau'n hanfodol ar gyfer helpu pobl i deimlo cysylltiad dwfn â natur, ac i ddeall sut mae eu llesiant eu hunain wedi'i gysylltu'n gynhenid â llesiant byd natur.

**Judith Musker Turner, Rheolwr Portffolio a  
Karine Décorne, Rheolwr Rhaglen Natur Greadigol,  
Cyngor Celfyddydau Cymru**

The Fellowship is special because it gives time and space generously to artists to develop their practices – individually, and through exchange with communities and with each other – in the recognition of the greater long-term impact that this generates for both artists and audiences.

At the heart of the programme lies a recognition that there is considerable power in bringing people with different perspectives, knowledge and life experiences together, whether it is just to talk around a fire, go for a walk or be part of a collective shared experience. The opportunity to be exposed to these differences has been invaluable to grow, learn and sometimes even change our perspective on things we thought we knew well. Add creativity to this and something quite remarkable happens.

The Fellowship has also been a deep exploration of the power of the arts to foreground our often unconscious interactions and emotional connection with the natural world around us. The Fellows have taken each other, the partners and the diverse communities they have worked with on incredibly profound emotional journeys. Some have been very intimate and visceral and have exposed the wealth of knowledge which exists in our own bodies. Others have enabled people to change their connection to nature and formed the basis for new thinking and possible solutions.

What may seem like small and soft actions in the face of the collapse of nature and biodiversity are hugely underestimated. The profound experiences and learning created through the Fellows' creative research are powerful evidence that the arts are essential for helping people to feel deeply connected to nature and understand how their own well-being is intrinsically linked to the well-being of nature.

**Judith Musker Turner, Portfolio Manager &  
Karine Décorne, Creative Nature Programme Manager,  
Arts Council of Wales**

# Jenny Peevers

Mae Cymrodoriaeth Cymru'r Dyfodol 2023-25 wedi cynnig cyfle prin i weld beth sy'n digwydd pan fydd artistiaid yn cael amser, cefnogaeth ac adnoddau i ddilyn ymholid credigol. Drwy ddilyn eu hymatebion i'r thema 'cysylltiad â byd natur', mae'r Cymrodorion wedi agor ffyrdd dwys o archwilio ein perthnasau â byd natur.

Fel gwerthusydd allanol, roedd hi'n faint ymuno â'r trydydd penwythnos preswyl yn Ystagbwll, Sir Benfro, lle bu pob Cymrawd yn rhannu eu hymchwil. Roedd pob digwyddiad rhannu yn ein tywys ni drwy wahanol ffyrdd o ganfod, teimlo ac ymgorffori ein perthnasau clymog â byd natur. Er nad oedd y corff ymchwil yn ofni materion anodd fel gwladychiaeth a chyflawnder cymdeithasol ac amgylcheddol, roedd yn obeithiol.

Mae'r ymddiriedaeth, y didwylledd a'r awydd gwirioneddol i ddysgu gan bartneriaid sefydliadol yn datgelu dealltwriaeth ddofn o werth yr 'artist fel ymchwilydd'. Mae'r anthropolegydd, Tim Ingold, yn ystyried bod celf yn '... rhagorol wrth arfer ymchwil.' (Ingold, 2018, t2). Mae'n diffinio hyn fel proses o archwilio agoriadau i orwelion newydd gyda chwilfrydedd a gofal. Mae Ingold yn credu bod llyfr clasurol yr awdur a'r bardd Nan Shepherd *The Living Mountain* yn datgelu bod Shepherd yn "...gwybod gwirionedd y mynydd drwy fod y tu mewn iddo". Mae'n datgan, "Y math hwn o wybod-drwy-fod...yw hanfod ymchwil" (2018, t8). A'r ffurf yma o '**wybod-drwy-fod**' mae'r Cymrodorion wedi'i roi i ni, gan agor ffyrdd o gysylltu a thrawsnewid ein perthynas â natur.

**Jenny Peevers, Gwerthusydd Allanol**

# Jenny Peevers

Future Wales Fellowship 2023-25 has been a rare opportunity to see what happens when artists are given time, support and resources to follow a creative inquiry. Through following their responses to the theme 'connection to nature', the Fellows have opened-up profound ways to explore our relationships with the natural world.

As external evaluator, I felt privileged to join the third residential weekend in Stackpole, Pembrokeshire, where each Fellow shared their research. Each sharing was an event that guided us through different ways of perceiving, feeling, embodying, our entangled relationships with nature. Whilst the body of research didn't shy away from difficult issues such as colonialism, social and environmental justice, it was hopeful.

The trust, openness and genuine desire for learning from organisational partners reveals a deep understanding of the value of the 'artist-as-researcher'. Anthropologist, Tim Ingold, considers art to be '...exemplary in the practice of research.'(Ingold, 2018, p2). He defines this as a process of exploring openings to new horizons with curiosity and care. Ingold believes the writer and poet, Nan Shepherd's classic book *The Living Mountain*, reveals Shepherd is "...knowing the truth of the mountain from her being-inside it". He states, "This kind of knowing-in-being...is the essence of research" (2018, p8) And it is this form of '**knowing-in-being**' that the Fellows have gifted us, opening ways to connect and transform our relationship with nature.

**Jenny Peevers, External Evaluator**

# Eric Lesdema

Bu i fi gwrdd â Dr Hefin Jones ar ôl ei glywed yn disgrifio 'gweithio gyda'r pridd'. Roedd ei ysgrifau fel petaent yn pontio ecoleg ddamcaniaethol, labordy a maes. Roedd y syniad o 'weithio gyda' yn adleisio sgwrs gynharach gyda Selwyn Williams, lle buon ni'n siarad am 'Oes o fyw ar y mynydd' gan Margaret Roberts ac 'I Bought A Mountain' gan Thomas Firbank. Felly gofynnais i Hefin:

"Mae gen i ddiddordeb mawr yn dy brofiad o'r Gymraeg a diwylliant, a sut mae haenau'r iaith – os meddyliwch chi am haenau yn y pridd – yn ymgasglu ac yn ymddangos yn eich ymchwil mewn ffordd efallai na fyddai'n digwydd pe baech chi'n gweithio drwy gyfrwng y Saesneg yn unig."

Ryw chwe mis yn ddiweddarach, fe gwrddon ni eto, a dechreuodd Hefin y sgwrs gan ddweud,

"Dw i wedi meddwl llawer am y sgwrs yna, nid am fy mod i'n difaru dim ohoni, dw i ddim yn difaru gair, ond gwnaeth i fi feddwl am bethau. Rhywsut fe wnest ti lwyddo fy nghael i i fynegi pethau sy'n eithaf hanfodol i fi, ond dw i ddim yn credu i fi erioed eu mynegi o'r blaen, ac mae hynny ynddo'i hunan yn ddiddorol i fi..."

"... wrth i chi deithio 'nôl ar yr M4, rydych chi'n cyrraedd Talacharn ac mae'r arwydd yno 'Croeso i Sir Gaerfyrddin' a dw i'n ei wneud e bob tro heb feddwl, dw i'n meddwl am ddarn o farddoniaeth ysgrifennodd Gwenallt, ac mae un o'r llinellau yn y soned honno i Sir Gâr yn dweud bod gweld eich pridd 'fel gweled wyneb brawd', a dwi bob amser yn meddwl hynny yn fy mhen, ac ro'n i'n meddwl neithiwr gan

wybod y byddwn i'n dy weld di heddiw, o, dyna rodden nhw'n ei olygu yn y sgwrs yna..."

Mae'r darnau yma o ddwy sgwrs unigol gyda Dr Hefin Jones, Ysgol y Biowyddorau, Prifysgol Caerdydd.

Nid yw natur yn ofni'r gwagle, ond yn hytrach daw'n anadl y mae natur yn ei ddefnyddio i roi bywyd. Mae Hefin a chymaint o bobl eraill sy'n cymryd rhan yn yr ymholid yma yn dangos, mewn geiriau ac mewn gweithredoedd, fynegiannau iaith arall. Ffordd o ymddwyn ac ymarfer sy'n ail-fframio'r profiad o fyw fel mecanwaith dysgu. Yn ymateb i ddamcaniaeth gwaith a rennir.

Mae'r rhyngweithiadau yma'n dynwared natur yn yr ymgais hirfaith sy'n uno'r cyfwelydd a'r cyfwelai, y cyfwelai a'r cyfwelydd, gan gnoi cil ar is-haen sylfaenol yr ymchwil yma. Roedd syniadau diwylliannol 'estron' hyn a modelau newydd o feddwl yn ddeinameg a allai gael, ac a gafodd, eu harchwilio gyda'i gilydd.

Fy *modus operandi* ar draws y Gymrodoriaeth oedd gwahodd myfyrdod. Cwestiynu normau, arferion a rhagfarnau. Mae'r cyfryngu yma gyda chyd-sgwrsywyr yn cael ei ddatblygu drwy gyfres o 23 ffilm ysgrif i gynnig mannau cychwyn newydd i sgyrsiau, yn agored i gael eu parhau. Maen nhw'n ymchwilio i'r rhyng-gysylltiadau cymhleth rhwng ystumiadau entropig cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylchedol.

Mae'r sgyrsiau a'r ffilmiau ysgrif YMA

# Eric Lesdema

I met Dr Hefin Jones having heard him describe 'working with the soil'. His writings seem to bridge field, laboratory and theoretical ecology. The idea of 'working with' echoed an earlier conversation with Selwyn Williams where we spoke about 'Oes O Fyw ar Y Mynydd' Margaret Roberts and 'I Bought A Mountain' Thomas Firbank. So I asked Hefin:

"I am really interested in your experience of Welsh language and culture, and how the substrate of the language - if you think about substrates within the soil - fester and manifest themselves within your research in a way that might not happen were you working solely within the medium of English."

Some six months later we met again and Hefin opened the conversation saying,

"I've thought a lot about that conversation not because I regret any of it at all, I don't regret any word of it, but it did make me think about things. Somehow you managed to get me to express things that actually are quite fundamental to me but I don't think I have ever expressed them before as it were and that in itself was interesting to me..."

"... as you travel back on the M4 you come to Laugharne and the sign is up there croeso i Sir Gaerfyrddin and I do it every time subconsciously I think of a piece of poetry that Gwenallt wrote and one of the lines in that sonnet to Carmarthenshire says seeing your soil is like seeing a brother's face and I always think

it in my mind, and I was thinking last night knowing I am seeing you today, oh that is what they meant in that conversation ..."

The extracts are from two separate conversations with Dr Hefin Jones, School of Biosciences, Cardiff University

Nature is not scared of the void, rather the void becomes a breath from which nature gives life. Hefin and so many of the people participating in this inquiry demonstrate both in words and in actions, the expressions of another language. A way of behaving and practising that reframes living experience as a learning mechanism. Responding to the hypothesis of works shared.

These interactions mimic nature in the protracted quest that unites interviewer and interviewee, interviewee and interviewer, pondering the underlying substrate of this research. So called alien cultural ideas and new models of thinking were dynamics that could be, and were, interrogated together.

My modus operandi across the Fellowship has been to invite speculation. Question norms, practices and biases. These mediations with interlocutors are developed through a series of 23 essay films to offer new conversational starting points, open to be continued. They investigate the complex interconnections between social, cultural, economic and environmental entropic distortions.

The conversations and essay films are [HERE](#)



# Zillah Bowes

## Comins

Pan ddechreuais fy Nghymrodoriaeth, fy nod oedd llunio iaith ar gyfer ein comins, ein diffyg arwahaniad, â natur. Ro'n i am ddod â'n perthynas neu ein cyfathrebu mewnol â natur i'n hymwybyddiaeth, a chanfod ffyrdd o fynegi hynny. Ro'n i'n credu y bydden i'n darganfod hyn drwy weithio gyda phobl eraill, ac mai ffordd newydd o siarad am natur fyddai'r canlyniad. Ro'n i'n rhagweld prosiect fyddai'n edrych am allan, fel ymchwil mewn gwahanol gymunedau ro'n i'n gysylltiedig â nhw.


Yn gyntaf, dysgais am animistaeth gyfoes, seicoleg plant (y diffyg gwahaniaeth rhwng y ffenomena naturiol a'r hunan) a siamanaeth, ymhllith eraill. O hynny, lluniais gyfres o gwestiynau. Buan y dysgais er bod gan lawer o bobl berthynas â natur, mai prin y byddai'n cael ei mynegi mewn geiriau llafar na'i chlywed yn fewnol. Gwelais hefyd fod y rhan fwyaf o bobl yn ei chael yn anodd mynegi'r berthynas yma, neu unrhyw gyfathrebu â natur, mewn geiriau allanol.

Drwy newid fy ymagwedd, dechreuais ymgymryd ag astudiaeth agos o fi fy hunan, gan rannu a chyfnewid arsylwadau un i un gyda nifer fach o ymarferwyr. Daeth hyn yn sail i ailffocysu fy Nghymrodoriaeth. Deallais – er mwyn gwrando, er mwyn sylwi go iawn, beth oedd yn digwydd y tu mewn i fi fy hunan – fod yn rhaid i fi arafu fy mhroses o brofi natur, a fy mhroses o arsylwi a sylwi ar y profi yma. Hyfforddais fy hunan mewn gwahanol ffyrdd i wneud hyn, ac es i i ddosbarthiadau arlunio ffurfiol am y tro cyntaf i ehangu fy ffyrdd o fynegi.

Yn y pen draw, datblygais broses y dechreuais ei defnyddio wrth greu fy ngwaith artistig fy hunan. Creais fynegiadau o fy *ngyfnewidiadau* â natur mewn barddoniaeth, testun, delweddau (y datblygais wedyn yn ddelwedd symudol mewn gwahanol ffyrdd), brasluniau, marciau ar bapur, marciau ym myd natur, sain, a symud. Er mwyn gwneud hyn, es ati i weithio mewn modd ymgorfforedig a greddol.

Defnyddiai y broses yma wrth ymchwilio i brosiect newydd am gof a thrawma, a ddatblygodd yn gyfres o waith delwedd symudol, *Here Now There Then*, wnaed fel rhan o gomisiwn arall a dderbynais cyn y Gymrodoriaeth gan y Cyngor Prydeinig ar y cyd â FLAMIN/Film London, g39 a Videotage. Dechreuais rannu'r broses yma gydag eraill mewn gweithdai, mewn gohebiaeth ac ar-lein, gan lunio cyfres o Sgoriau Synnwyr, sydd hefyd yn gerddi, fel cyfres o gyfarwyddiadau. Cefais fy synnu mor hygyrch oedden nhw, a fy ysbrydoli gan ymatebion y cyfranogwyr.

Ers dechrau fy Nghymrodoriaeth, rydw i bellach yn cydnabod symudiad oddi wrth edrych am allan, i edrych i mewn ar fy arfer fy hunan. Ar ôl canolbwytio'n bennaf, fel artist gweledol, ar ofodau a chymunedau y tu allan i fi fy hunan, mae fy ngwaith wedi dechrau canolbwytio'n fwy ar fy mhrofiad mewnol, ac wedi ehangu i gyfryngau eraill. Rwy'n edrych ymlaen i weld i ble fydd hyn yn mynd!



**Sgôr Synhwyro****Am Dro****i**

Cyn i ti fynd am dro, sylwa beth sy'n digwydd y tu mewn i ti: teimladau, a meddyliau efallai.  
Wyt ti'n dod â rhywbeth, yn holi cwestiwn, neu eisiau rhywbeth o'r dro yma?  
Hyd yn oed os nad ydi o'n syniad, dim ond ryw fath o newid neu deimlad wyt ti'n chwilio amdano.

**ii**

Yn ystod y dro, wyt ti'n sylwi ar newid yn dy gorff, neu deimlad gwahanol?  
Oes yna newid yn y peth oeddet ti efallai yn dod efo ti, neu ei eisiau, neu yn chwilio amdano fo?

**iii**

Yn ystod ac/neu ar ôl bod am dro, noda'r newidiadau a brofaist ti, e.e. geiriau, marciau, recordiadau llais, lluniau, fideos ac ati.

**Sense Score****Walk****i**

Before your walk, notice what's happening inside you: sensations, perhaps thoughts.  
Are you bringing something, asking something or wanting something from this walk?  
Even if it isn't a thought, just a change or a feeling you're seeking.

**ii**

During the walk, do you notice a change in your body or a different feeling?  
Is the thing you may have been bringing, asking or wanting the same, or has it changed?

**iii**

During and/or after the walk, record the changes you experience e.g. words, marks, voice recordings, photos, videos etc.



## Commons

When I began the Fellowship, my goal was to devise a language for our commons, our lack of separation, with nature. I wanted to bring into consciousness our internal relationship or communication with nature and find ways to express it. I thought I would discover this by working with other people and that the result would be a new way of speaking about nature. I had a project focused outwards in mind, such as research in different communities where I was connected.

First, I learnt about contemporary animism, child psychology (the lack of distinction between the self and natural phenomena) and shamanism, among others. From this, I devised a series of questions. I quickly learnt that although many people had a relationship with nature, it was rarely expressed in words spoken or heard internally. I also found that most people found it difficult to express this relationship, or any communication with nature, in words outwardly.

Changing my approach, I began to undertake a close study of myself, sharing and exchanging observations one-on-one with a small number of practitioners. This became the basis of a refocusing of my Fellowship. I understood that in order to listen, to really notice, what was happening inside of myself, I had to slow down my experiencing of nature, and my observing and noting of this experiencing. I trained myself in different ways to do this and also took formal drawing classes for the first time to widen my modes of expression.

Eventually, I developed a process that I started to use in making my own artistic work. I created expressions of my *exchanges* with nature in poetry, text, images (which I then developed into moving image in different ways), sketches, marks on paper, marks in nature, sound and movement. To do this, I actively worked in an embodied and instinctive way.

I used this process when researching a new project about memory and trauma which developed into my series of moving image works *Here Now There Then*, which were part of a separate commission I received before the Fellowship from the British Council in conjunction with FLAMIN/Film London, g39 and Videotage. I began to share this process with others in workshops, correspondence and online, devising a series of Sense Scores, which are also poems, as a set of instructions. I was surprised about how accessible they were and inspired by participants' responses.

Since starting the Fellowship, I now recognise a shift from looking outwards to looking inwards in my own practice. Having primarily focused as a visual artist on spaces and communities outside of myself, my work has become more focused on my inner experience and expanded into other mediums. I am excited to find out where this will lead!

# Cyfoeth Naturiol Cymru

Dechreuodd fy nghyfranogiad i gyda Chymrodoriaeth Cymru'r Dyfodol yn 2020, pan lofnodwyd cytundeb rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, gan leisio cyd-weledigaeth i gael perthynas agosach rhwng byd natur a'r celfyddydau. Meddylion ni am y syniad o Gymrodoriaeth er mwyn creu lle i artistiaid gael amser ac adnoddau i archwilio'n fanylach i'r cwestiynau dyfnach y mae ein cymdeithas yn ei hwynebu.

Mae'r cwestiynau sy'n cael eu harchwilio yn ystod y Gymrodoriaeth yma'n ymwneud â'n cysylltiad hanfodol â byd natur. Dangoswyd bod y cysylltiad yma yn un hynod bwysig o ran sut rydyn ni'n teimlo ynon ni ein hunain, a'r modd rydyn ni'n ymddwyn tuag at y byd rydyn ni'n byw ynddo. Serch hynny, mae hefyd yn hysbys ein bod ni'n prysur ddod yn un o'r gwledydd sydd wedi'u datgysylltu fwyaf o fyd natur yn y byd.

Mae gwreiddiau ein cysylltiad â byd natur yn gonglfeini cymhleth a rhyng-gysylltiol i'n bywydau modern, ein gorffennol diwylliannol dwfn, a'n nodweddion ymdeimladol craidd. Mae pob un o'r Cymrodorion wedi archwilio hyn yn eu ffyrdd eu hunain, rhai'n ddadansodol, rhai'n emosiynol a rhai'n synhwyraidd, ond pob un â gofal ac ymrwymiad gwirioneddol, sydd wedi bod yn ysbrydoledig ac yn ostyngedig i'w weld.

Ces i'r pleser o sefyll ochr yn ochr â'r Cymrodorion ar y daith yma, a galla i dystio'n bersonol bod eu hymholiadau wedi ail-siapiro'r ffordd rwy'n gweld byd natur. Mae eu cwestiynau wedi canfod llwybrau newydd drwy dir sathredig, ac rwy'n siŵr y byddant, dros amser, yn anfon crychdonnau a fydd yn ein cyrraedd ni i gyd.

**Joe Conran, Prif Ymgynghorydd Arbenigol,  
Cyfoeth Naturiol Cymru**

# Natural Resources Wales

My involvement with the Future Wales Fellowship began in 2020, with the signing of an agreement between the Arts Council of Wales and Natural Resources Wales, voicing a shared vision for a closer relationship between nature and the arts. We conceived the idea of a Fellowship to make a space for artists to have the time and resources to creatively explore the deeper questions being faced by our society.

The questions being explored during this Fellowship are about our fundamental connection to nature. This connection has been proven to be of immense importance to how we feel in ourselves, and how we act towards the world we live in. However, it is also known that we are quickly becoming one of the most nature detached nations in the world.

The roots of our connection to nature are complicated, intertwining strands of our modern lives, our deep cultural past and our core sentient attributes. Each of the Fellows has explored this in their own way, some analytical, some emotional, some sensory, but all with genuine care and commitment that has been inspiring and humbling to witness.

I've had the pleasure of standing alongside the Fellows on this journey and can personally attest that their enquiry has reshaped the way that I see nature. Their questions have found new paths through well-trodden ground and I'm sure that, in time, they will send out ripples that reach us all.

**Joe Conran, Lead Specialist Advisor,  
Natural Resources Wales**

# Peak Cymru

Mae twys Cymrodoriaeth Cymru'r Dyfodol 2023-25 wedi bod yn faint ac yn brofiad addysgiadol i dîm Peak. Gwahoddodd y cyfle ni i weithio tu hwnt i'n hamgylchedd lleol yn y Mynyddoedd Duon a Dyffryn Wysg, a deall sut gallwn addasu'r ffyrdd yma o weithio er mwyn gweithio gyda chytser o artistiaid a phartneriaid sy'n gweithio ledled Cymru a thu hwnt.

Mae'r gwaith o gefnogi rhaglen fel y Gymrodoriaeth yn codi drwy dal cyfres o berthnasau rhwng Cymrodorion, partneriaid, cyflwynwyr a gwesteion – weithiau'n llawen, yn gynhyrchiol, yn ddwys ac yn heriol.

Yn ein tair preswylfa yn Ystagbwll a Chwm Elan, roedd y broses o rannu yn amlygu'r amrywiaeth yn arferion y Cymrodorion, y cyseinedd oedd rhyngon nhw, a'r offer oedd ei angen i gydweithio fel grŵp: ar draws ieithoedd, profiad a ffiniau.

Ein prif obaith ar gyfer y digwyddiadau ymgynnull yma oedd y bydden nhw'n esblygu o gael eu cynllunio gan Peak i gael eu cynnull gan y Cymrodorion eu hunain. Yn y breswylfa olaf, cynigiodd y Cymrodorion strwythuro'r amser o gwmpas pob un yn rhannu agwedd ar eu hymchwil/proses. Symudodd y grŵp rhwng sgyrsiau amlieithog, cerddoriaeth, barddoniaeth, ffilm, cerdded a mathau eraill o gyfathrebu ieithyddol ac anieithyddol. Cawson ni ein syfrdanu gan y modd roedd y Cymrodorion yn creu gofod hylifol a deinamig wrth gysylltu eu harferion, ac mae'r profiad yma wedi ysbrydoli a dylanwadu ar ein gwaith wrth symud ymlaen.

**Melissa Appleton ac Elen Roberts,  
Cyd-Gyfarwyddwyr, Peak Cymru**

# Peak Cymru

Guiding the Future Wales Fellowship 2023-25 has been a privilege and learning experience for the Peak team. The opportunity invited us to work beyond our local environment of the Black Mountains and Usk Valley and to understand how ways of working rooted here could be adapted to work with a constellation of artists and partners working across Wales and beyond.

The work of supporting a programme like the Fellowship emerges in the holding of a set of relationships between Fellows, partners, hosts and guests – at times joyful, generative, tense and challenging.

At our three residencies in Stackpole and Cwm Elan the sharing highlighted the diversity of the Fellows' practices, the resonances between them and the tools needed to work together as a group: to cross languages, experience and boundaries.

Our main hope for the gatherings was that they would evolve from being planned by Peak to being convened by the Fellows. In the last residential, the Fellows proposed to structure the time around each sharing an aspect of their research/process. The group moved between multi-lingual conversations, music, poetry, film, walking, and other forms of linguistic and non-linguistic communication. We were moved by how the Fellows created a fluid and dynamic space connecting their practices and this experience has inspired and influenced our work going forward.

**Melissa Appleton & Elen Roberts,  
Co-Directors, Peak Cymru**

# Alison Neighbour

Mae'r sêr yn dal i fod yn yr awyr wrth i fi adael, ond yn sefyll yn erbyn glas golau, yn arwydd o'r wawr sydd ar ddod, a daw'r tir i'r golwg yn araf, yn fwyl na chysgod.

Mae awgrym o oerfel hydrefol yn yr awyr wrth i fi orwedd ar y garreg wastad groesawgar yn y cwrwgl, fy wyneb tua'r awyr, yn agored i'r hyn sydd ganddo i'w gynnig. O amgylch brig y mynyddoedd mae ymylon duon, wrth iddyn nhw ddisgleirio'n aur, yn las, ac yn binc, gyda photensial ynni cyfoethog.

Rwy'n troi'r cwch i fyny dros fy ngborff ac mae'r llewyrch cyn y wawr yn tywynnu drwy fy ngroen tryloyw, yn goleuo dail a gasglwyd o daith flaenorol sy'n ymuno â'r nyth am gyfnod byr, eu ffurf wedi'i hamlygu'n berffaith, yn llonydd mewn amser a gofod.

Mae melynwy enfawr o gynhesrwydd yn rhedeg dros y cribau'n llifo aur meddal a niwl pinc, yn olch o olau sy'n gwneud i bob gronyn o fywyd ddisgleirio. Rwy'n ymgolli yn y llewyrch crwn; ym mywiogrwydd popeth; mewn bod yma, nawr, yn yr eiliad hon, yn rhan oboni, wedi fy nal ganddi....

Ar y daith 'nôl, mae'r awyr las a'r cymylau gwynion meddal yn adlewyrchu'r pyllau gwydrog sy'n weddill ar y llwybr mawnog meddal wedi glaw trwm y nos. Maen nhw'n disgleirio golau'r haul yn ôl arno, gan ddod â'r Ddaeear, yr Awyr, y Tân a'r Dŵr ynghyd. Mae'r gwair a fi'n dawnsio yn yr awel dyner ac yn tywynnu'n euraidd ysgafn.

\*\*\*\*

Dros gyfnod o flwyddyn, dechreuais ofyn i fi fy hunan "ai pobl yw'r gynulleidfa bwysicaf?" – mae'n bosib mai gwraidd ein problemau yw ein bod yn ystyried mai ni yw canol popeth, a gallai ychydig o ostyngeiddrwydd ein helpu ni i ddod o hyd i ffordd allan o argyfwng. Wrth

chwilio am ostyngeiddrwydd yn fy arfer fel artist, ac yn fy mherthynas â'r byd ehangach (y dynol a'r mwy-na-dynol), edrychais ar y Gymrodoriaeth gyda'r athroniaeth "beth alli di ei ddangos i fi?" – gan baratoi cyfleoedd i gwrrdd a chyfnewid gyda meddwl agored ynghylch ble bydden nhw'n mynd â fi, gan gael fy nhywys gan dymoroldeb ac ymgysylltiad synhwyraidd.

Mae fy nwylo'n cael eu rhwbio gan y llwyfen wrth i fi blico'r rhisgl oddi wrth y boncyff a'i arogl ciwcymer. Rwy'n teimlo'r cyfrifoldeb am y bywyd hwn rydym wedi'i gymryd, a'r angen i wneud rhywbeth hardd a chysegredig i'w anrhydeddu. Rwy'n gwehyddu mat – man gorffwys ar waelod y cwch.

Mae llin yn cael eu plannu, ac ymhen can niwrnod mae'r blodau glas cain yn ildio i goesynnau codau badau, ac yna i ffibr tebyg i flew meddal ceffyl, i'w wehyddu'n ddefnydd – yn lliain i'r croen.

Rwy'n cerdded ac yn cael cynnig trysorau – sudd pinwydd, lanolin... mae'r atebion i fy nghwestiynau'n ymddangos yn y tir ac mae'r her ynghylch sut i wneud y cwrwgl yn wrth-ddŵr yn cael ei datrys.

Des o hyd i fwy o atebion, a mwy o gwestiynau, yng ngofodau ymylol lle ac amser – y manau rhynghol yna, lle mae newid yn bosib neu'n sicr hyd yn oed, fel ffin y nos a'r dydd; y tir a'r môr; y gwyllt oddi mewn a'r normau cymdeithasol sy'n ein dal ni.

\*\*\*\*

Rwy'n adeiladu nyth i fod yn saff ynddi cyn yr ymyl, cynefin i gael fy nal oddi mewn iddo, yn y byd eang a bregus rydyn ni'n rhan obono. Lle i ganfod perspectif, i fod yn ostyngedig, i gael ein hail-swyno gan bopeth sy'n fwyl na ni.





# Alison Neighbour



*The stars are still in the sky when I set off, but they sit against a pale blue that signals imminent dawn, and the land gradually becomes visible as more than shadow.*

*An autumn chill tinges the air as I lie on the welcoming flat stone in the coracle, face to the sky, open to what it has to offer. The tips of the mountains are edged with black and glow gold, blue and pink with rich potential energy.*

*I turn the boat upwards over my body and the pre-sunrise glow shines through the translucent skin, illuminating leaves collected from a previous journey that join the nest for a short time, their form perfectly highlighted, suspended in time and space.*

*A huge egg yolk of warmth spills over the ridges in floods of soft gold and pink haze, a bath of light that makes every particle of life glow. I immerse myself in the rounded radiance; in the aliveness of everything; in being here and now in this moment, part of it, held by it...*

*On the journey back, the blue sky and soft white clouds reflect in the glassy pools left by the night-time heavy rain on the softly peated path. They shine back the sunlight, bringing together Earth, Sky, Fire and Water. The grasses and I dance in the softest of breezes and glow gently golden.*

\*\*\*\*

Over the course of the year I started to ask myself “is the most important audience human?” - perhaps the root of our problems is considering ourselves the centre of it all and a little humbleness could help us find our way out of crisis. In seeking humbleness both in my practice as an artist and in my relationship

to the wider world (human and more-than-human) I approached the Fellowship with the philosophy of “what can you show me?” - setting up opportunities for encounter and exchange with an open mind as to where they would take me, and being led by seasonality and sensory engagement.

*My hands are chafed by the elm as I peel the bark away from the slippery cucumber-scented bast and bone. I feel the responsibility for this life that we have taken and the need to make something beautiful and sacred in honour of it. I weave a mat - a resting place in the bottom of the boat.*

*Flax is planted and within a hundred days the delicate blue flowers give way to seed pod stalks, and then to a soft horse-hair type fibre to be woven into fabric - linen for the skin.*

*I walk and am offered treasures - pine sap, lanolin... the answers to my questions appear within the land and the challenge of how to waterproof the coracle is solved.*

I found more answers, and more questions, in the edge spaces of place and time - those between spaces where change is possible or even certain, like the edge of night and day; of land and sea; of the wild within and the social norms that contain us.

\*\*\*\*

*I build a nest in which to be safe before the edge, a cynefin in which to be held within the vast and fragile world we are a part of. A place to find perspective, to be humble, to be re-enchanted by all that is bigger than us.*

# Simmy Singh

Bu taith fy Nghymrodoriaeth yn archwiliad o sut i ddod â pharch at natur i'r gofod cyngerdd. Mewn byd sy'n cael ei siapio'n gynyddol gan gyfalafiaeth a'i ddatgysylltu o'r cysegreredig – o seremoni, parch dwfn, a pherthynas ddwyffordd â byd natur – bues i'n chwilio am ffyrdd o adfer yr arferion yma drwy bŵer cerddoriaeth ac adrodd straeon. Fy uchelgais oedd ailgyflwyno'r traddodiadau yma mewn ffordd sy'n teimlo'n gynhwysol ac yn berthnasol i'r oes sydd ohoni.

Ces i'r faint o gerdded ar hyd y llwybr yma ochr yn ochr ag Angharad Wynne, storïwraig ac un o geidwaid doethinebau'r tiroedd yma. Drwyddi hi, dw i wedi wedi dod i ddeall pŵer dwys myth a stori wrth ein gwreiddio ni yn y llefydd rydyn ni'n eu galw'n gartref. Mae'r daith yma wedi mynd â fi'n ddyfnach i fythau, chwedlau, a thraddodiadau'r tiroedd yma, gan gyfoethogi fy arfer fy hunan o gysylltu â gwe bywyd drwy'r ffyrdd hynafol yma.

Ar gyfer ein cymuned leol, mae Angharad a fi wedi cynnal gweithdai, gwledd a phererindod epig Gŵyl Awst, a chynulliad gaeafol o gwmpas y Tân ar gyfer Gŵyl y Golau. Roedd pob un o'r profiadau yma wedi'u dylunio i ysbrydoli cysylltiad, myfyrdod, a pherthynas ddyfnach â byd natur.

Drwy dreulio amser gyda fy nghymuned, daeth un sylweddoliad yn glir: nid y neuadd gyngerdd yw'r ffordd fwyaf pwerus o ddefnyddio cerddoriaeth i ysbrydoli parch am natur – ond natur ei hunan. Mae dod â cherddoriaeth yn uniongyrchol at y tir yn creu ymdeimlad uniongyrchol a dwys o gysylltiad; mae'n teimlo'n gywir. Dw i wedi bod yn mynd â fy


ffidil fwyfwy i fydd natur, gan ganu a dawsio gydag adleisiau'r coedwigodd a'r chwareli, cyfansoddi caneuon yn y bryniau yn fy fan, gyda'r machlud a'r gwartheg yn gwmni. Yn ystod ein pererindod i Lyn y Fan Fach, byddwn yn chwarae fy ffidil ar wahanol adegau, gan fyrfyfyrio gyda'r bryniau, y coed a'r dŵr, ym mhresenoldeb cymuned. Roedd yn brofiad hynod gynhyrfus.

Un peth arall dw i wedi'i ddysgu gan y daith yma yw nad yw parch at natur yn dod ar un ffurf – mae gan bawb eu ffyrdd eu hunain o gysylltu. Mae gweld hyn wedi bod yn ostyngedig ac yn ysbrydoledig. Mae hefyd wedi atgyfnerthu pwysigrwydd aros yn driw i fy ffyrdd i o gysylltu â byd natur, a pheidio ag ymddiheuro am hynny. Os ydw i am helpu eraill i ddyfnhau eu cysylltiad, mae'n rhaid i fi ymgorffori a byw'r arfer yma'n llawn fy hunan. Wrth i fi ddyfnhau fy nghysylltiad fy hunan â byd natur, dw i wedi bod yn fwy hyderus fyth am ei rannu'n agored ac yn onest, gan gydnabod y rôl hanfodol mae'n ei chwarae yn fy nghreadigrwydd a fy mynegiant.

Mae'r Gymrodoriaeth yma wedi bod yn brofiad dwys sydd wedi newid fy mywyd – profiad sy'n teimlo fel dechrau taith gydol oes. Un o'r gwwersi mwyaf dw i'n eu cymryd o'r ymchwil yma yw bod byw mewn parch gwirioneddol at natur yn arfer parhaus – yn arfer lle mae angen disgyblaeth a defosiwn. Ond pan fyddwn ni'n ymrwymo iddo, pan fyddwn ni mewn cytgord gwirioneddol â chylchoedd cain bywyd, rydyn ni'n agor y drws ar ddoethineb dwfn, llawenydd, mynegiant creadigol di-derfyn, ac ymdeimlad dwys o berthyn. Yng ngeiriau Mary Oliver 'sylw yw dechrau defosiwn'.



# Simmy Singh



My Fellowship journey has been an exploration of how to bring reverence for nature into the concert space. In a world increasingly shaped by capitalism and disconnected from the sacred—from ceremony, deep reverence, and a reciprocal relationship with the natural world—I sought ways to restore these practices through the power of music and storytelling. My ambition was to reintroduce these traditions in a way that feels inclusive and relevant to our times.

I have been privileged to walk this path alongside Angharad Wynne, a storyteller and wisdom keeper of these lands. Through her, I have come to understand the profound power of myth and story in grounding us to the places we call home. This journey has led me deeper into the myths, lore, and traditions of these lands, enriching my own practice of connecting to the web of life through these ancient ways.

For our local community, Angharad and I have hosted workshops, an epic Lammas/Gwyl Awst pilgrimage and feast, and a winter gathering around the fire for Gwyl Y Golau/Imbolc. Each of these experiences was designed to inspire connection, reflection, and a deeper relationship with the natural world.

Through spending time with my community, one realisation became clear: the most powerful way to use music to inspire reverence for nature isn't in the concert hall—it's in nature itself. Bringing music directly into the landscape creates an immediate and profound sense of connection; it simply feels right. I have been taking my violin into nature more and

more, singing and dancing with the echoes of forests and quarries, composing songs up in the hills in my van, with the sunset and cows for company. During our pilgrimage to Llyn y Fan Fach, I played my violin at various points, improvising with the hills, the trees and the water, in the presence of community. It was a deeply moving experience.

Another important learning from this journey is that reverence for nature doesn't take a single form—everyone has their own way of connecting. Witnessing this has been both humbling and inspiring. It has also reinforced the importance of staying true to my own way of relating to the natural world and being unapologetic about it. If I want to help others deepen their connection, I must fully embody and live this practice myself. As I have deepened my own connection to the natural world, I have become even more confident about sharing it openly and honestly, recognising the essential role it plays in my creativity and expression.

This Fellowship has been a profound, life-changing experience—one that feels like the beginning of a lifelong journey. One of the greatest lessons I take from this research is that living in true reverence for nature is an ongoing practice—one that requires both discipline and devotion. But when we commit to it, when we truly attune ourselves to the intricate cycles of life, we open the door to deep wisdom, joy, boundless creative expression, and a profound sense of belonging. In the words of Mary Oliver ‘attention is the beginning of devotion’.



# Ymddiriedolaeth Cwm Elan

Mae gweithio ar Gymrodoriaeth Cymru'r Dyfodol gyda Chyngor Celfyddydau Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi bod yn bleser eleni. Roedd croesawu'r Gymrodorion i Gwm Elan yn gyfle gwych i drafod y gwaith rydyn ni'n ei wneud a pham. Roedd egluro a thrafod y tensiynau a all godi rhwng amaethyddiaeth a chadwraeth yn neges allweddol roedden ni am ei chyfleu. Roedd hi'n wych gweld y ffordd roedd yr artistiaid yn ymgysylltu â'r amgylchedd ac yn deall arlliwiau ein tirlun hynod arbennig.

Roedd treulio amser gyda'r artistiaid a thrafod eu gwaith a'u harfer hefyd yn uchafbwynt, ac roedd eu gwyliau nhw'n datblygu ac yn tyfu i ymchwilio i'r byd o'u cwmpas yn bleser.

Fel unigolyn, cefais i lawer gan y bartneriaeth hefyd – gan feithrin perthnasau a chyfeillgarwch gyda'r bobl eraill oedd yn rhan ohoni. Daeth y Gymrodoriaeth ar adeg dda, ar ddiwedd prosiect mawr roedden ni wedi bod yn ei gynnal gyda'n preswylfeydd celf ein hunain, ac roedd yn teimlo fel cam naturiol ymlaen i Ymddiriedolaeth Cwm Elan. Mae ein cyfranogiad wedi cadarnhau ein hymrwymiad i gynnwys celf yn ein prosiectau yn y dyfodol, ac i ddatblygu a chynnal y berthynas rydyn ni wedi'i meithrin dros y flwyddyn ddiwethaf. Rwy'n edrych ymlaen i weld cynnydd yr holl Gymrodorion hyfryd, a byddai'n braff eu gweld nhw yng Nghwm Elan unwaith eto'n fuan.

**Esther Wakeling, Rheolwr Prosiectau a Phartneriaethau,  
Ymddiriedolaeth Cwm Elan**

# Elan Valley Trust

Working on the Future Wales Fellowship with the Arts Council of Wales, Natural Resources Wales and the National Trust has been a pleasure this year. Having the Fellows in the Elan Valley was a brilliant opportunity to discuss the work we do and why. Explaining and discussing the tensions that can arise between agriculture and conservation was a key message we wanted to convey. The way the artists engaged with the environment and understood the nuances in our very special landscape was great to see.

Spending social time with the artists and discussing their work and practice was also a highlight, watching them develop and grow and investigate the world around them was a joy.

As an individual I took a lot from the partnership too - building relationships and friendships with the other people involved. The Fellowship opportunity was well timed at the end of a large project we had been running with our own art residencies and the Fellowship felt like a natural progression for the Elan Valley Trust. Our involvement has re-affirmed and cemented our commitment to including art in future projects, and to develop and maintain the relationships we have built over the past year. I look forward to following the progression of all the wonderful Fellows and we hope to see them in the Elan Valley again soon.

**Esther Wakeling, Projects and Partnerships Manager,  
Elan Valley Trust**

# Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru

Mae Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru'n falch o fod yn bartner cefnogi i Gymrodoriaeth Cymru'r Dyfodol dros y flwyddyn ddiwethaf. Roedd croesawu'r Cymrodorion ar ddwy breswylfa yn 2024 yn Ystagbwll yn Sir Benfro yn gyfle i rannu'r heriau, y cyfleoedd a'r materion penodol rydyn ni'n eu hwynebu wrth ofalu am fyd natur. Drwy ryngweithio â rhai o'r ecosistemau amrywiol, yn ogystal â thrafod ein gwaith cadwraeth, gobeithiwn fod yr artistiaid wedi cael mewnwelediadau a allai siapio eu gwaith yn y dyfodol. Rydyn ni'n chwilfrydig i weld sut bydd y profiadau yma'n dod i'r amlwg yn eu harfer creadigol.

Mae bod yn rhan o brosiect traws-sefydliadol gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, Ymddiriedolaeth Cwm Elan, a Chyngor Celfyddydau Cymru wedi bod yn brofiad gwerth chweil, ac mae'r bartneriaeth wedi datblygu ein dealltwriaeth o botensial cydweithio rhyngddisgyblaethol wrth fynd i'r afael â materion amgylcheddol.

Edrychwn ymlaen i weld esblygiad parhaus teithiau creadigol y Cymrodorion, ac effaith y fenter gydweithredol yma ar y cymunedau artistig ac amgylcheddol.

**Grace Davies, Curadur Profiadau a Phartneriaethau,  
Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru**

# National Trust Cymru

National Trust Cymru is pleased to have been a supporting partner for The Future Wales Fellowship over the last year. Hosting the Fellows for two residencies in 2024 at Stackpole in Pembrokeshire provided an opportunity to share the challenges, opportunities and nuances we face in caring for nature. By interacting with some of the diverse ecosystems, as well as discussing our conservation efforts, we hope the artists have gained insights that may shape their future works. We are curious to see how these experiences will manifest in their creative practice.

Being part of a cross-organisational project with Natural Resources Wales, Elan Valley Trust, and the Arts Council of Wales has been a valuable experience, and the partnership has developed our understanding of the potential of interdisciplinary collaboration in addressing environmental issues.

We look forward to observing the continued evolution of the Fellows' creative journeys and the impact of this collaborative initiative on both the artistic and environmental communities.

**Grace Davies, Experiences & Partnerships Curator, National Trust Cymru**

# Julia Thomas

Pan ddechreuais i'r ymholaed 'natur ddynol', roedd fy meddyliau'n drwm gyda fy nhad. Gweithiwr dur oedd e, a gollodd ei swydd yng ngweithfa Duport pan gafodd y weithfa ei chau, gan newid bywoliaeth a thirwedd fy nhre, Llanelli, am byth. Byddai fy nhad bob amser yn mynd yr ail filltir i achub creaduriaid, gan greu rhyw fath o ddeorfa o foks sgidiau i dderyn du, dod â chathod bach heb gartref i'r tŷ, am eu bod yn rhy ifanc i fod heb eu mam, a gweithredoedd di-ri eraill o garedigrwydd. Bu i'w weithredoedd syml, mor gynnwl a di-esboniad, siapio fy nghysylltiad cynhenid â natur. Dw i'n gwneud yr un fath, mae natur fy nhad bellach yn natur i fi hefyd. Roedd fy nhad yn breuddwydio am gael ymddeol, treulio'i ddyddiau yn ei sied, yn trwsio pethau. Pan ddaeth hi'n bryd ymddeol, roedd degawdau o weithio yn y diwydiant wedi gwanhau ei galon a'i ysgyfaint. Wnaeth e ddim byw'n ddigon hir i beidio â chael ei ddiffinio gan ei waith, a fu ym maes dur erioed.

Sylweddolais i ddim erioed fy mod i wedi fy magu mewn tre sy'n cael ei hadfywio'n barhaus oherwydd dirywiad y diwydiant, a derbynias newid fel rhan o fyw wrth y môr. Do'n i ddim yn ddigon dewr i gwestiynu sut roedd fy nhad yn teimlo am weithio gyda dur, pan mai ei reddf oedd achub, ac nid ychwanegu at ddinistr cynefinoedd.

Dw i wedi bod yn gweithio gyda phobl yn fy nghymuned drwy broses o sut rydyn ni'n adrodd stori tirwedd sydd wedi newid ei swyddogaeth, a gyda hynny, ein hymdeimlad ni o bwrrpas. Dw i wedi'u galw nhw yn 'In My Nature Spaces' lle mae bodau dynol yn

cofio eu bod nhw hefyd yn rhan o natur, ac wedi mynd ati'n chwareus i ganfod geiriau ac ystyron i ddisgrifio hyn, gan leisio ein cyd-alar ôl-ddiwydiannol heb gywilydd. Mae ein cydweithio wedi arwain at olygfeydd, eiliadau mewn amser ar y safle ym Mharc Dŵr y Sandy sydd wedi disodli'r gwaith dur. Rydyn ni'n dyfeisio geiriau newydd i'n helpu i fynegi ein cysylltiad â natur a'n perthynas â chymuned. Ro'n i'n gwybod drwy greu lle i archwilio geiriau sy'n rhoi teimlad i gysylltiad â natur, y byddwn i'n agor yr hyn rwy'n credu sy'n alar ôl-ddiwydiannol, rhywbeth sy'n gwrthhddweud ei hunan. Mae'n boenus dyheu am rywbeth rydyn ni'n gwybod sy'n niweidiol i natur ond sy'n gwneud i ni deimlo bod lle i ni yn y byd. Ond dw i'n gwybod hefyd os naawn ni i'r afael â'r ymdeimlad yma o golled yn ein cymunedau, bod perygl i ni ddisodli safleoedd a oedd yn arfer tanio a mygu, gyda llwybrau sy'n ein harwain ni'n ôl i ble ddechreuon ni ac i dirweddau sydd wedi'u dylunio i gadw natur dan reolaeth. Byddwn ni'n parhau i redeg, cerdded a beicio mewn panorama lle rydyn ni'n teimlo fel petaen ni yn yr awyr agored ond wedi'n dieithrio rhag cyfoeth bywyd a'r posibilrwydd sydd gan natur i'w gynnig.

Drwy ein gwaith, cododd *cyn-nabod* fel gair yn ein hiaith, sy'n golygu bod angen gwybodaeth ar bobl yn ogystal â greddf i basio'r hyn a oedd yn hysbys ynghynt ymlaen, gan bennu beth sydd ei angen ar gyfer y dyfodol. Pan fyddwn ni'n anwybyddu'r hyn rydyn ni'n ei wybod, rydyn ni'n gosod ein hunain ar wahân i'n natur. Mae *cyn-nabod* yn teimlo fel contract bythol rhyngon ni a gweddill natur, llinach gwybodaeth.

# Julia Thomas

When I started the 'human nature' enquiry my thoughts lay heavily with my father. He was a steelworker who was made redundant from the Duport's works when it closed down, changing the livelihoods and landscape of my town, Llanelli, for good. My dad always went out of his way to save creatures, making makeshift incubators out of shoeboxes for blackbirds, bringing home abandoned kittens, too young to have left their mothers and countless other gestures of kindness. His simple actions, subtle and without explanation, shaped my inherent connection to nature. I do the same, his nature has become my nature. My dad dreamt of retiring, spending days in his shed, fixing things. When retirement came, decades of working in industry had weakened his heart and lungs. He didn't live long enough not to be defined by the work that he did, always with steel.

It had never dawned on me that I had grown up in a town being continuously regenerated because of the decline of industry, I just accepted change as part of living by the sea. I hadn't been brave enough to question how my father had felt about working with steel, when his instinct was to save, not add to the destruction of habitats.

I've been working with people in my community through a process of how we tell the story of a landscape that has changed function, and with it, our own sense of purpose. I've called them 'In My Nature Spaces' where

human beings remember they too are nature, and playfully find words and meanings to describe this, unashamedly voicing our collective post-industrial grief. Our work together has resulted in scenes, moments in time on site at Sandy Water Park, which has replaced the steel works. We invent new words helping us to express our connection to nature and our relationship to community. I knew that by giving space to explore words that give feeling to nature connection, I would open up what I believe is a post-industrial grief that is contradictory to resolve. It is painful to yearn for something that we know is detrimental to nature but that makes us feel like we have a place in the world. But I also know that if we don't address this feeling of loss in our communities, then we risk replacing sites that once blasted and smoked with pathways leading us back to where we started and landscapes designed to keep nature under control. We will continue running, walking and cycling in a panorama where we are seemingly outdoors but estranged from the abundance of life and possibility that nature brings.

Through our work, the word *cyn-nabod* entered our knowable language, meaning that human beings need knowledge as well as instinct to pass on what was known before, determining what is needed for the future. When we ignore what we know, we set ourselves apart from our nature. *Cyn-nabod* feels like our eternal contract with the rest of nature, the lineage of knowing.



# Iestyn Tyne

Anwesa'r hanesion o'r cerrig – mae digon ohonynt. Haenau cenedlaethau dy dylwythoedd. Nid tylwyth, nid teulu mewn gwaed, ond am inni godi i wynebu ac adnabod yr un erwau, yr un copâu pell; yr un adwyon gonest sydd ag enwau'u rhinweddau arnyn nhw; am inni droedio'r un rhimynnau o dir wedyn pa wyrth os nad perthyn anwythiennog yw'r pethau hynny? oeda, a darllena'r geiriau sy'n llenwi meinï'n hamynedd, os am ennyd, ennyd yn unig ...

Yn y rhan hon o'r ddrama fydryddol 'Llif' rydw i ym mynwent leol y gymuned lle cefais fy magu, ac yn dychmygu lleisiau rhai o'r hen enwau sydd ar y meinï yn fy nghyfarch. Myfyrio ar fywydau pobl sy'n byw ar, yn defnyddio, yn croesi ac yn gweithio'r tir sydd wedi ffurfio craidd fy ymchwil creadigol a'i ganlyniadau dros y flwyddyn a hanner a fu; a'r syniad fod perthyn i ddarn o dir yn gallu bod yn beth amrywiol, amlweddog a chnotiog. Dyna'r rheswm am ddechrau wrth fy nhraed fy hun; gyda fy mherthynas i â chlythaith penodol o gaeau amaethyddol yn Llŷn.

Ond wedyn. Richard a Catrin Griffiths yn gadael fferm anghysbell y Carneddi ar lethrau Moel y Dyniewyd yn Eifionydd, yn dilyn hunanladdiad eu mab Hywel; a'r ffotograff trawiadol a dynnwyd gan Geoff Charles ac a ddaeth i gynrychioli cymaint yn fwy na swm straeon personol y llun. Edward Prosser Rhys yn cael ei fagu ar fawndir y Mynydd Bach yng Ngheredigion yng nghyfodol tad cymhleth a salwch difrifol, ac yn ei ugeiniau cynnar yn ysgrifennu un o gerddi Cymraeg enwocaf yr ugeinfed ganrif; archwiliad beiddgar o hunaniaeth, rhywioldeb, gwreiddiau, bro, mudo, serch ac iechyd. Sefydlu'r Comisiwn Coedwigaeth dan weinyddiaeth Lloyd George yn dilyn y Rhyfel Mawr, a phrynu talpiau helaeth o dir salaf y wlad i ailblannu coed; tir lle'r oedd pobl yn byw, yn llafurio, yn caru, yn creu.

Edrych yn ôl oeddwn i, o hyd. A chanfod yno bresennol a dyfodol.

Iechyd meddwl, unigedd; ieuencid gwledig. Olyniaeth a phob tynfa a phwysau sy'n gweithio'n groes i'w gilydd mewn teuluoedd amaethyddol. Plannu coed, ailwyltio, a galar. Rhyfel a cholled, gwerth tir, gwaith caled. Rhywioldeb, hunaniaeth, herio disgwyliadau mewnol ac allanol.

A straeon pobl. Eu celfyddyd, eu diwylliant, eu cerddoriaeth. Dyfnach, bellach, fy nealltwriaeth o'r pethau hyn fel rhan o ecosystem, o *natur*, hyd yn oed, unrhyw filltir sŵgwr. O'r herwydd bu cyfnod y Gymrodoriaeth yn wahanol i'r disgwyl, ond yn fwy ystyrlon, gobeithio. Mwy o oedi, mwy o ddarllen; mwy o sgyrsiau gydag unigolion nac o hel grwpiau mawr at ei gilydd. Ceisio dweud rhywbeth – creu argraff o werth, o gyfoeth ac amlhaender rhywbeth – trwy gorff o waith a ddaw i ffrwyth fesul dipyn dros gyfnod o flynyddoedd, yn hytrach nac un testun neu berfformiad diffiniol cyn symud ymlaen at rywbeth arall.

Map, efallai, ond nid ar bapur gwastad, mewn du a gwyn.

yna daw'r mab a'i dad  
yn blygeiniol, gan ddidoli'u geiriau prin fel  
gogri pridd,  
a sawr yr holl bethau sydd heb eu dweud fel  
beudai Awst.



# Iestyn Tyne



*What stories lie layered within and beneath these rows of headstones? These names, unrelated to you by blood, and yet connected by having faced, known and worked the same acres. Take stock and read, if only for a while.*

In this part of the verse drama 'Llif', I am in the local cemetery of the community where I grew up, and I imagine the voices of some of the old names on the stones greeting me. Reflecting on the lives of the people who live, use, cross and work on the land that has formed the core of my creative research and its results over the past year and a half; and the idea that belonging to a piece of land can be a varied, multifaceted and knotted thing. That's why I started at my own two feet; with my own relationship with a particular patchwork of agricultural fields in Llŷn.

But then. Richard and Catrin Griffiths leaving the remote farm of Carneddi on the slopes of Moel y Dyniewyd in Eifionydd, following the suicide of their son Hywel; and the striking photograph that was taken by Geoff Charles which came to represent so much more than the sum of the photograph's personal stories. Edward Prosser Rhys being brought up on the peatland of Mynydd Bach in Ceredigion, in the shadow of a complicated father and a serious illness, and in his early twenties writing one of the most famous Welsh language poems of the twentieth century; a bold exploration of identity, sexuality, roots, place, migration, love and health. The establishment of the Forestry Commission under the Lloyd George administration following the Great War, and the purchase of large swathes of the country's

poorest land to replant trees; land where people lived, laboured, loved and created.

I was always looking back. And there I found a present and a future.

Mental health, isolation; rural youth. Succession and all the pulls and pressures that work against each other in agricultural families. Planting trees, rewilding, grief. War and loss, the value of land, hard work. Sexuality, identity, challenging internal and external expectations.

And the stories of people. Their art, their culture, their music. Deeper, now, was my understanding of these things as part of the ecosystem, of the *nature*, even, of any square mile. As a result, the Fellowship period was different from what I expected, but more meaningful, I hope. More pausing, more reading; more conversations with individuals rather than convening large groups. Trying to say something – to create an impression of something's value, richness, and layers – through a body of work that will come to fruition over a period of years, rather than creating one definitive text or performance before moving on to the next thing.

*And here they come, father and son,  
the unsaid sifted like soil between them.*



# Diolch i bawb a gyfrannodd i'r rhaglen a'i gwneud yn bosib

## Partneriaid ariannu

Cyngor Celfyddydau Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru, Ymddiriedolaeth Cwm Elan

## Arweinwyr staff

Judith Musker Turner, Cyngor Celfyddydau Cymru  
Karine Décorne, Cyngor Celfyddydau Cymru  
Joe Conran, Cyfoeth Naturiol Cymru  
Grace Davies, Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru  
Esther Wakeling, Ymddiriedolaeth Cwm Elan

## Partner cyflwyno

Peak Cymru – Elen Roberts, Melissa Appleton, Louise Hobson & Polly Hunter

## Cyfranwyr rhaglen

Partneriaid: Haydn Garlick (Prif Geidwad, De Sir Benfro, Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru), Paul Culyer (Uwch Swyddog Rheoli Tir, Cyfoeth Naturiol Cymru), Rebecca Spooner (Curadur Treftadaeth Ddiwylliannol De Cymru, Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru), Iona Blockley (Swyddog Mawndir, Ymddiriedolaeth Cwm Elan), Charlotte Harley (Pennaeth Ystadau, Ymddiriedolaeth Cwm Elan)

## Cyfranwyr gwadd

Dylan Huw  
Rachel Solnick  
Jén Angharad

## Gwerthuswr

Jenny Peevers

## Hwylusydd gwerthuso

Iwan Williams

## Dehonglwyr a chyfieithwyr ar y pryd

Lowri Gwyn, Hilary Maclean, Nerys Hurford a Sheryll Holley

Diolch yn arbennig i'r holl bobl a fu'n gweithio tu ôl i'r llen i wneud i hyn ddigwydd, a'r holl dimau arlwyd, llety a lleoliad ar y safleon. Mae eu haelioni aruthrol, eu gofal a'u hyblygrwydd wedi chwarae rhan fawr wrth wneud y preswylfeydd yn llefydd croesawgar, arbennig a ffrwythlon.

## Cyhoeddiad

Cynhyrchydd: Peak Cymru  
Golygydd: Grug Muse  
Cyfieithydd: Eiri Sion, Nico  
Dylunydd: Mark El-khatib

# Thanks to everyone who contributed to the programme and made it possible

## Funding partners

Arts Council of Wales, Natural Resources Wales, National Trust Cymru, Elan Valley Trust

## Staff leads

Judith Musker Turner, Arts Council of Wales  
Karine Décorne, Arts Council of Wales  
Joe Conran, Natural Resources Wales  
Grace Davies, National Trust  
Esther Wakeling, Elan Valley Trust

## Delivery partner

Peak Cymru – Elen Roberts, Melissa Appleton, Louise Hobson & Polly Hunter

## Programme contributors

Partners: Haydn Garlick (Lead Ranger, South Pembrokeshire, National Trust Cymru), Paul Culyer (Senior Officer Land Management, Natural Resources Wales), Rebecca Spooner (Cultural Heritage Curator for South Wales, National Trust Cymru), Iona Blockley (Peatland Officer, Elan Valley Trust, Charlotte Harley (Head of Estates, Elan Valley Trust)

## Guest contributors

Dylan Huw  
Rachel Solnick  
Jén Angharad

## Evaluator

Jenny Peevers

## Evaluation co-facilitator

Iwan Williams

## Translators and interpreters

Lowri Gwyn, Hilary Maclean, Nerys Hurford and Sheryll Holley

A special thank you to all the people who worked behind the scenes to make all this possible and all the catering, accommodation and venue teams on site. Their tremendous generosity, care and adaptability played a great part in making the residential so welcoming, special and fruitful.

## Publication

Producer: Peak Cymru  
Editor: Grug Muse  
Translator: Eiri Sion, Nico  
Designer: Mark El-khatib



**Manon  
Awst**

**Cheryl  
Beer**

**Eric  
Lesdema**

**Zillah  
Bowes**

**Alison  
Neighbour**

**Simmy  
Singh**

**Julia  
Thomas**

**Iestyn  
Tyne**